## Gweddi ar Grist y Groes

Mynegwn ein diolch am y myfyrdod a ddarllenwyd gennym ar Gristoleg gan Gymro nodedig o'r ugeinfed ganrif, y Prifathro W. T. Pennar Davies, un a roddodd ei fywyd i baratoi bechgyn a merched i ystyried llwybr y weinidogaeth ac i bregethu am Grist a'i ddioddefiadau. Doniaist dy was ag ysgolheictod a doniau lawer, a bu ef yn cyflwyno'n ffyddlon wirioneddau hanfodol ffydd mewn coleg a chapel ar hyd ei oes.

Ei brofiad ef oedd profiad yr emynydd:

'Pa le, pa fodd dechreuaf
foliannu'r Iesu mawr?
Olrheinio'i ras ni fedraf,
mae'n llenwi nef a llawr:
anfeidrol ydyw'r Ceidwad,
a'i holl drysorau'n llawn;
diderfyn yw ei gariad,
difesur yw ei ddawn.'

O'i gariad anchwiliadwy, trefnodd Duw'r Tad i'w Fab ei hun ddioddef gwaradwydd a phoen, a rhyfeddwn ninnau gyda'r athro dysgedig at ei gariad yn ein meddiannu'n llwyr ac yn rhoddi i ni gydwybod wedi ei glanhau a bywyd wedi ei ymgysegru i Grist y Groes. Does ryfedd fod yr emynydd yn dweud:

'Am Grist a'i ddioddefiadau,
rhinweddau marwol glwy',
y seinir pêr ganiadau
i dragwyddoldeb mwy.'

A gwyddom o brofiad personol am y rhyddhad a ddaw i ni yn ein myfyrdod ar Groes Crist.

'Mi dafla' 'maich oddi ar fy ngwar
wrth deimlo dwyfol loes;
euogrwydd fel mynyddoedd byd
dry'n ganu wrth dy groes.'

Rhyfedd dy Ras! A rhyfedd dy ffyrdd, O Dduw! A mynegwn unwaith yn rhagor am Gristoleg ein ffydd:

'Fe roes ei ddwylo pur ar led,
fe wisgodd goron ddrain
er mwyn i'r brwnt gael bod yn wyn
fel hyfryd liain main.'

Yn enw Iesu'r Groes, Amen.